ystwyth ar Wyl y Banc.

Bu nifer o'r plant ym mherfformiad cwmni Crwban yn Theatr y Werin a chael hwyl arbennig ar y cynhyrchiad.

Rhaid yw llongyfarch nifer o'r plant ar eu llwyddiant yn yr arholiadau cerdd. Braf yw gweld cymaint ohonynt yn cymryd diddordeb yn y piano ac yn cael cymaint o foddhad wrth ddysgu chwarae'r offeryn hyn. Da iawn chwi.

Y mae nifer o'r plant a'r rhieni'n brysur y dyddiau hyn yn paratoi ar gyfer y Ffair Haf sydd i'w chynnal nos Wener y deuddegfed o Fehefin yn yr ysgol. Bu'r Noson Agored ar y nos Wener gyntaf o Fai yn hynod o lwyddiannus. Unwaith eto cafodd y rhieni gyfle i sgwrsio â'r athrawon a chael golwg ar waith y plant. Diolch